

Nodyn Cyfarfod y Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol yng Nghymru a gynhaliwyd ddydd Iau 31 Gorffennaf 2017 – swyddfa Cyngor ar Bopeth Cymru, 4ydd Llawr, Tŷ Trafalgar, 5 Fitzalan Place, Caerdydd CF24 0ED

Yn bresennol:

Bob Chapman, Cadeirydd y Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol (BC)
Lisa Hayward, CLILC (LH)
Dr Sumina Azan, Iechyd Cyhoeddus Cymru (SA)
Lara Ramsay, y Loteri Fawr (LR)
Fran Targett, Cyngor ar Bopeth Cymru (FT)
Salli Edwards, Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint (SE)
JJ Costello, Shelter Cymru (JC)
Andrew Jacobs, Yr Uned Cynhwysiant Digidol ac Ariannol, Llywodraeth Cymru (AJ)
Paul Neave, Pennaeth y Gwasanaethau Cyngori, Llywodraeth Cymru (PN)

Eitem 1 – Croeso, ymddiheuriadau a chyflwyniadau

1.1 Croesawodd BC bawb i 10^{fed} cyfarfod y Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol yng Nghymru (NAN).

1.2 Nodwyd ymddiheuriadau gan:

Lee Phillips, Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol
Kay Powell, Cymdeithas y Cyfreithwyr
Stephanie Barry, Yr Uned Cynhwysiant Ariannol, Llywodraeth Cymru

Eitem 2 – Adroddiad y Cadeirydd

2.1 Roedd BC wedi dosbarthu ei adroddiad diweddar ymysg yr aelodau cyn y cyfarfod i dynnu sylw at ei waith diweddar.

2.2 Cadarnhaodd BC y bydd yn cyfarfod Peter Wyman ar 08/08/2017 i drafod ei adolygiad o ariannu cyngor ar ddyledion.

2.3. Cytunodd y grŵp fod nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 27^{ain} Ebrill yn gofnod cywir.

Eitem 3 – Diweddariad gan Lywodraeth Cymru

3.1 Cynigion ar gyfer ariannu a datblygu gwasanaethau cyngori cynaliadwy

- Trafododd PN y papur uchod a gafodd ei ddosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod. Cafodd ei gydnabod y bydd cario cyllid ymlaen yn arwain at bryderon gan ddarparwyr ynghylch anallu i gael gafael ar grantiau Llywodraeth Cymru. Er hynny, derbyniwyd yn gyffredinol ei bod yn synhwyrol cynnal ymarfer grant cystadleuol mor effeithiol â phosibl. Dylai Llywodraeth Cymru esbonio pam nad yw'n ymarferol cynnal proses ymgeisio gystadleuol yn hydref 2017. Er enghraifft, mae angen

sefydlu gwasanaeth asesu'r Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor (IAQF), cynnig gan Lywodraeth y DU i ddatganoli ariannu dyledion, mae angen datblygu adnodd mapio DEWIS ymhellach, dadansoddi anghenion o ran diffyg dewis sianel, ac ati.

Roedd adborth gan y Fforwm Ymgynghorwyr Annibynnol hefyd yn cynnwys pryderon bod gwasanaethau Cefnogi Pobl, sy'n honni eu bod yn darparu cyngor, ddim ond yn darparu gwasanaethau brysennu/cyfeirio. Roedd hyn yn tynnu sylw at yr angen i wasanaethau cynghori/cefnogi ddod ynghyd er mwyn cynllunio gwasanaethau sy'n cael eu cyflwyno mewn ardaloedd lleol yn well gyda'r sectorau cynghori/cefnogi yn gweithio yn unol â'u cryfderau penodol eu hunain.

Byddai darparwyr yn croesawu gallu cynnig cyfnod tendro hirach.

3.2 Y Bil Cyfarwyddyd Ariannol a Hawliadau

- Amlinellodd AJ yr amserlen frys y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Trysorlys yn gweithio yn unol â hi er mwyn sicrhau bod y Bil yn cael ei gynnwys yn rhaglen deddfwriaethol y DU. Roedd angen cymeradwyaeth 'mewn egwyddor' arnynt gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Bil, a chan fod rhannau o'r Bil yn berthnasol i allu deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC), roedd hyn yn cynnwys cael Ysgrifennydd y Cabinet Llywodraeth Cymru i gyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol (CCD) gerbron CCC. Mae dadl ynghylch y Bil/CCD yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i threfnu ar gyfer mis Hydref 2017.

Mae angen trafodaethau manylach ar Lywodraeth Cymru ynghylch manylion y Bil cyn cyfarfodydd briffio'r Pwyllgor yn ogystal â'r ddadl yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn cynnwys y lefel a'r adnodd ar gyfer datganoli ariannu cyngor ar ddyledion; y cysylltiadau â chanllawiau ariannol /gallu ariannol; a sut mae'r ymgynghoriad presennol y Gwasanaeth Cynghori Ariannol ac adolygiad Wyman yn ymdrin â materion fel y rhain.

Bydd cynnig Trysorlys EM o ran sut bydd yn cyfrifo'r cyllid ar gyfer darparu cyngor ar ddyledion yn hanfodol ar gyfer sicrhau cefnogaeth barhaus i'r CCD yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru. Ym mhob un o'i ymatebion i'r ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi'r farn gyson y dylai unrhyw gyllid ar gyfer darparu cyngor ar ddyledion sydd wedi'i ddatganoli fod yn amodol ar fformiwla ariannu deg a thryloyw yn seiliedig ar angen, gan adlewyrchu dyled gymharol uwch Cymru.

Nododd FT fod y dadleuon a gyflwynwyd o'r blaen gan Lynne Schofield (cyn sefydlu'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol) – wedi sicrhau cyllid wedi'i seilio ar anghenion yn hytrach na Barnett.

Cam Gweithredu:

BC i fynd i ddigwyddiad rhanddeiliaid yr Adran Gwaith a Phensiynau/Trysorlys Ei Mawrhydi a fydd yn trafod y Bil ar 3/08/17.

BC i ddrafftio ymateb NAN i ymgynghoriad y Gwasanaeth Cyngori Ariannol a'i ddosbarthu i gael sylwadau.

3.3 Map Darparwyr DEWIS

- Cyflwynodd PN y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y map. Mae'r categori Cyngor ar Lesiant Cymdeithasol bron â gorffen. Bydd y darparwyr sydd eisoes wedi cofrestru ar y map yn cael cais i adolygu/diweddarau eu cofnod a darparu gwybodaeth am y gwasanaeth dan y categori llesiant cymdeithasol newydd. Gofynnir i'r holl randdeiliaid eraill lwytho eu gwybodaeth i fyny i safle DEWIS. Mae gan Lywodraeth Cymru hawliau golygydd ar safle DEWIS a bydd yn cadw llygad ar unrhyw wybodaeth anghyson cyn i gofnodion y gwasanaeth newydd gael eu cyhoeddi.

Eitem 4 – NAN – Dogfen Negeseuon Allweddol

4.1 Amlinellodd PN gynnwys drafft diweddaraf y ddogfen negeseuon allweddol. Awgrymwyd y dylid newid y teitl i 'Cefnogi llesiant drwy wasanaethau cyngori' a bod angen esbonio'r diffiniad o 'lesiant cymdeithasol'.

Cam Gweithredu: PN i newid y ddogfen a'i dosbarthu i gael sylwadau cyn ei chyhoeddi ar wefan NAN.

4.2 Soniodd SA am adroddiad diweddar gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar lesiant yng Nghymru, a gyflwynodd ddau ar bymtheg o argymhellion yn dilyn dadansoddiad o'i waith hyd yma gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cam Gweithredu: SA i anfon yr adroddiad at PN i gael ei ddosbarthu ymysg aelodau'r NAN

Eitem 5 – Adolygiad Blynyddol y NAN ar Wybodaeth a Chynllun Gweithredu

5.1 Esboniodd BC ei fod wedi cyfarfod Ysgrifennydd y Cabinet i drafod yr uchod. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn falch o adolygiad y NAN ac o gynllun y ddogfen, a oedd yn ei gwneud yn hawdd ei dilyn.

5.2. Roedd pawb yn derbyn bod gan NAN rôl allweddol i'w chwarae yn y gwaith o sicrhau ei fod yn bodloni holl gamau gweithredu'r IAA yn llwyddiannus.

Eitem 6 – Datblygu cynlluniau ar gyfer y mentrau lle mae NAN wedi gofyn am gyllid gan Lywodraeth Cymru yn 2017/18

6.1 Dywedodd BC fod Ysgrifennydd y Cabinet wedi nodi y gallai rhywfaint o gyllid fod ar gael i ymgymryd â mentrau, a nodwyd yn adolygiad blynyddol y NAN o'r IAAP. Trafododd PN y papur a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod.

- Ymgorffori gwaith atal mewn ymyriadau argyfwng

Cafwyd trafodaeth eang ar y gweithgaredd hwn, gan gynnwys, sut mae atal cwsmeriaid sy'n dod yn ôl; sut mae gwneud mwy o bobl yn wydn; mae llawer o ddarparwyr eisoes yn darparu cyngor cyfannol. Cytunwyd bod hwn yn faes gwaith cynhwysfawr a chymhleth a bod angen ei ystyried yn fanwl er mwyn gweld hyd a lled unrhyw brosiect yn y maes hwn.

Cam Gweithredu: PN i wahodd aelodau NAN i ymuno â gweithgor i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

- Dewis Sianel

Esboniodd BC na chafodd hyn ei gynnwys yn y fanyleb derfynol ar gyfer y dadansoddiad o anghenion. Cytunwyd ei fod yn weithgaredd blaenoriaeth ac y bydd yn ddefnyddiol ar gyfer prosesau comisiynu i'r dyfodol. Nodwyd bod gwahaniaeth pwysig rhwng 'angen' a 'dewis', ac y bydd angen cynnal gwaith ymchwil i bennu pa sianel sy'n gweithio orau.

Cam Gweithredu: Llywodraeth Cymru i ofyn i'r gwaith ymchwil gael ei gwmpasu a'i gomisiynu cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

- Cynrychiolaeth mewn Tribiwnlys

Credid y byddai llawer o ddata am y maes hwn ar gael eisoes ac efallai y byddai modd i wirfoddolwr/gwirfoddolwyr o NAN ymgymryd â'r gwaith ymchwil cychwynnol. Fodd bynnag, nid oedd bwrw ymlaen â'r gweithgaredd hwn yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth.

Eitem 7 – Aelodaeth – Y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol

7.1 Esboniodd PN fod cyngor wedi cael ei anfon at Ysgrifennydd y Cabinet yn argymhell fod BC yn cael ei ailbenodi fel Cadeirydd tan 31/12/2018. Bydd yr aelodau presennol yn cael gwahoddiad i barhau yn aelodau o'r NAN tan 31/12/2018. Oherwydd toriad yr haf efallai na fydd y llythyrau cadarnhad wedi'u derbyn erbyn 05/08/17. Fodd bynnag, nododd PN y byddai'r aelodaeth newydd yn dechrau o 06/08/17.

7.2 Trafodwyd cael aelodau ychwanegol o 'grŵp craidd' NAN. Dywedodd PN wrth y cyfarfod hefyd fod Ysgrifennydd y Cabinet wedi bod yn ystyried ymestyn aelodaeth y Grŵp Craidd i gynnwys y sector cydraddoldeb, undebau llafur a'r sector cyhoeddus.

Cam Gweithredu: BC a PN i ganfod cynrychiolwyr posibl.

Eitem 8 – Unrhyw fater arall

Soniodd BC am benderfyniad diweddar y Goruchaf Lys – ffioedd ar gyfer tribiwnlysoedd cyflogaeth. Nid oedd yn siŵr beth fyddai'r sefyllfa ar gyfer y rheini sy'n dewis peidio â mynd â'u hachos i dribiwnlys yn sgil y ffioedd. Cytunwyd y byddai'r NAN yn cadw llygad ar y mater hwn.

Eitem 9 – Cloi'r cyfarfod a dyddiadau'r cyfarfodydd yn y dyfodol

Cytunwyd y bydd cyfarfod nesaf y grŵp craidd yn cael ei gynnal ar 16 Hydref 2017 yng Nghaerdydd.